



Sistema Cymru - Codi'r To

Tiwtoriaid Cerdd – Prosiect Cymunedau Cerdd

1 x Tiwtor Offerynnau Pres / 1 x Tiwtor Offerynnau Taro / 1 Tiwtor Arweiniol

Rydym yn dymuno penodi tiwtor Pres, tiwtor Offerynnau Taro a thiwtor arweiniol talentog ac ysbrydoledig i fod yn rhan o'r prosiect cyffrous hwn yng Ngwynedd. Mae'r swyddi ar gyfer gweithio ar brosiect Cymunedau Cerdd (Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol)

Cefndir

Mae *Sistema Cymru - Codi'r To* yn brosiect adfywio cymunedol gyda'r nod o ddefnyddio cerddoriaeth fel ffordd o wella bywydau unigolion a chymunedau.

Wedi ei ysbrydoli gan y dull El Sistema, In Harmony a'r Big Noise fyd enwog, mae'r prosiect yn gweithio gyda dwy ysgol gynradd, Ysgol Glancegin, Bangor ac Ysgol Maesincla, Caernarfon a'u cymunedau lleol ac yn darparu yn bennaf profiadau cerddorol a thiwtora offerynnol gyda grwpiau blwyddyn gyfan o blant.

Anelwn i'r cyfan fod yn ysbrydoledig a gweddnewidiol i blant, teuluoedd, ysgolion a chymunedau. Trwy ymgysylltu cerddorol o safon, rydym yn ceisio codi disgwyliadau a thrwy hynny wella cyfleoedd bywyd pobol ifanc.

Mae'r tiwtoriaid cerdd yn ymweld â'r ysgolion nifer o weithiau bob wythnos i arwain gweithgareddau offerynnol a chanu, gan weithio gyda'r athrawon a rhoi cymorth iddynt drwytho gweithgareddau cerdd rheolaidd i mewn i waith yr ysgol. Mae'r prosiect hwn ar gael i bob plentyn, rhieni ac aelodau'r gymuned gan rhoi cyfle a phrofiad i bawb beth bynnag fo'u gallu cerddorol. Mi fydd prosiect Cymunedau Cerdd yn cynnal clybiau i blant, rhieni ac aelodau'r gymuned ar ol ysgol, yn ystod gwyliau ysgol, ac fel prosiect cymunedol mi fydd y tiwtoriaid yn gwneud cysylltiadau â theuluoedd a'r gymdogaeth o amgylch yr ysgolion, gan gyflwyno cerddoriaeth fyw i mewn i gartrefi pobl ac i leoedd eraill yn y gymuned.

Anghenion:

Mae angen cerddorion arnom sydd

- yn frwdfrydig ynglŷn â gweithio gyda phlant oed cynradd ac uwchradd
- yn teimlo'n angerddol tuag at yr hyn a all cerddoriaeth ei gynnig i bob un plentyn, waeth faint o dalent a gallu cerddorol sydd ganddo/ganddi
- yn awyddus i greu cysylltiadau gyda chymunedau lleol drwy gerddoriaeth
- eisiau bod yn rhan o brosiect uchelgeisiol
- yn gallu cyfathrebu ar lafar yn y Gymraeg

Swyddi ar gael: 1 x Tiwtor Offerynnau Taro (8 awr)
1 x Tiwtor Pres (8 awr)
1 x Tiwtor Cerdd Arweiniol (5 awr)

Lleoliad: Bangor a Chaernarfon.
Oriau: Pnawn Mawrth a Iau
Cytundeb: 2 flynedd
Cyflog: yn ddibynnol ar brofiad

Ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys CV ynghyd ac enw dau unigolyn all gyflwyno geirda. Ceisiadau i gyrraedd erbyn 12 o'r gloch, Dydd Mercher 19eg o Chwefror 2020 at carys@codirto.com

Carys Bowen, Cydlynnydd,
Sistema Cymru - Codi'r To
Canolfan Noddfa, Cil Peblig, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2RS – 01286 238200

Swydd ddisgrifiad

Pwrpas y swydd:

Gweithio fel rhan o dîm bychan yn darparu rhaglen gymunedol *Sistema Cymru - Codi'r To* gan weithio gyda phlant, ysgolion, y gymuned leol a darparwyr addysgiadol a chelfyddydol eraill.

Yn atebol i:

Y Cyfarwyddwr Cerdd a'r Cydlynnydd.

Disgwyliadau:

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus:

- Rannu ei f/frwdfrydedd ynglŷn â cherddoriaeth gyda phobl ifanc er mwyn eu hysgogi i fod eisiau canu a chwarae offeryn, datblygu eu sgiliau a'u gallu cerddorol, a dechrau datblygu llythrennedd cerddorol.
- Ysbrydoli ysgolion, teuluoedd a'r gymuned leol.
- Gweithio mewn modd cydgysylltiol fel rhan o dîm gydag agwedd gefnogol.

- Datblygu ei dd/dealltwriaeth o'r dull arbennig hwn o weithio a gwella ei sgiliau fel tiwtor cerdd.
- Mynychu hyfforddiant yn ôl y galw.

Prif ddyletswyddau:

1. Dysgu

1.1. Yn dilyn hyfforddiant ar ddeunyddiau craidd y prosiect bydd gofyn i'r tiwtor – mewn cydweithrediad â'r cyfarwyddwr cerdd - addasu a datblygu deunydd dysgu ar y cyd ag aelodau eraill o'r tîm, a sicrhau bod pob plentyn ac unigolyn yn cael adnoddau dysgu sy'n briodol ar gyfer ei gyrhaeddiad/ei chyrhaeddiad. Bydd angen hefyd bod yn barod i gyfrannu syniadau gwreiddiol artistig.

1.2. Dysgu offeryn i ddechreuwyr.

1.3. Rhoi cymorth gyda gofal a storio diogel o ddeunyddiau dysgu ac adnoddau.

2. Cymunedol

2.1. Perfformio gyda'r disgyblion mewn cyngherddau, unawdau ac ensembles fel rhan o ddarparu rhaglen *Sistema Cymru - Codi'r To*. Rhoddir amser i ymarfer.

3. Datblygiad proffesiynol

3.1. Gweithio gydag aelodau eraill o dîm *Sistema Cymru - Codi'r To* ar ddatblygiad proffesiynol parhaus (CPD).

3.2. Bod yn rhan o raglenni hyfforddi a mentora a drefnir.

4. Gweinyddol

4.1. Cysylltu yn ôl yr angen gyda'r Cydlynnydd, yr ysgolion a'r athrawon, ac aelodau eraill o'r tîm.

4.2. Cadw cofnodion o ddatblygiad y plant ac unigolion eraill ac adrodd yn ôl i'r cyfarwyddwr cerdd a'r cydlynnydd.

4.3. Cymryd rhan mewn gwaith sy'n gwerthuso'r rhaglen.

5. Cyffredinol

5.1. Cydymffurfio bob amser gyda diogelwch plant, iechyd a diogelwch a pholisïau perthnasol eraill *Sistema Cymru - Codi'r To* a'r ysgolion, a sicrhau bod cydymffurfiaeth gydag anghenion a goblygiadau statudol.

5.2. Cwblhau unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol er mwyn medru cyflawni'r rhaglen.

5.3. Bydd pob penodiad yn ddibynnol ar wiriad DBS llwyddiannus

Cymhwysterau a rhinweddau personol:

Hanfodol

- Cymhwyster lefel gradd mewn cerdd **neu** lefel uchel o allu yn ei offeryn cerdd.
- Profiad o addysgu grŵp a/neu chwarae cerddorfaol i safon uchel.
- Diddordeb a gallu mewn dyfeisio a pharatoi deunydd dysgu gan gynnwys trefniannau cerdd a gwaith gwreiddiol.
- Yn angerddol am addysgu cerddoriaeth i ddisgyblion o bob gallu.
- Y gallu i ysgogi brwdfrydedd mewn plant ac unigolion o bob gallu.

- Sgiliau empathi, agwedd gadarnhaol, parch ddiysgog at eraill a sgiliau rhyngpersonol cryf.
- Y gallu i fod yn fodel rôl o weithio'n broffesiynol a gyda disgwyliadau uchel ar gyfer eich hunain ac eraill.
- Cyfathrebwr gwych gyda phlant ifanc ac oedolion, a'r gallu i ddangos pwyll bob amser.
- Cred gref yng ngrym cerddoriaeth fel cyfrwng i gyfoethogi bywydau a thrawsnewid cymunedau.
- Ymwybyddiaeth o'r cyd-destun ac o amcanion cymdeithasol *Sistema Cymru – Codi'r To*, sef adfywio cymunedol a chyfle cyfartal.
- Diddordeb mewn hyrwyddo mynediad at gerddoriaeth mewn cyd-destun cymunedol.
- Agwedd gadarnhaol a brwdfrydedd tuag at pob agwedd o'r prosiect.
- Yn berson trefnus, awyddus, barod amdani, ond hefyd yn aelod da o dîm; yn fodlon gweithio'n hyblyg yn ôl y galw i gyflawni'r rhaglen.
- Y gallu i gyfathrebu / ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Trwydded yrru a defnydd o gerbyd gydag yswiriant priodol er mwyn teithio o ysgol i ysgol (ad-delir costau teithio hanfodol)

Dymunol

- Wedi cael profiad o hyfforddi plant.
- Y gallu i ganu'r piano i lefel uchel o allu yn gyfatebol i Gradd 5 neu uwch er mwyn cyfeilio mewn sesiynau ac mewn cyngherddau.
- Rhywfaint o allu dysgu ail offeryn.
- Hyder mewn defnyddio'r llais ac offerynnau rhythm.
- Gwybodaeth am ddulliau dysgu cerdd gyda phlant ifanc gan gynnwys Dalcroze a Kodaly.
- Profiad o gerdd gymunedol.

Cyn penodi:

- Rhaid cael gwybodaeth gan ganolwyr ar gyfer ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer.
- Bydd angen Datganiad Manwl o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y Swyddfa Cofnodion Troseddol cyn hyn) cyn medru cadarnhau unrhyw benodiad.

Cyfnod prawf:

Bydd cyfnod prawf o 3 mis.

Cychwyn:

Ebrill 2020

